FOOD STANDARDS AGENCY WALES

Food Chain Information for Cattle, Sheep and Goats

Food Chain Information for Cattle, Sheep and Goats

What this means for you

- Food Chain Information (FCI) becomes a legal requirement for cattle, sheep and goats from 1st January 2010.
- Food Chain Information is information about the health status of the holding and the animals being sent for slaughter, and other information relevant to the safety of meat derived from the animals, including medicines that may have been administered to them.
- FCI is an important part of 'farm-to-fork' food safety controls and ensures that information about slaughter animals is passed from the farm to the slaughterhouse.
- Livestock producers will be required to provide this information for all animals sent for slaughter – either directly or through a livestock market.
- The information is used by slaughterhouse operators in their food safety management systems and by MHS officials to make decisions about inspection procedures and meat.
- Following consultation with all stakeholders, FSA, as the central competent authority in the UK, has set out the minimum elements of FCI that must be supplied to the slaughterhouse. Ultimately it is for slaughterhouse operators to decide the exact information they require.
- Legislation does not stipulate how FCI should be provided – slaughterhouse operators will determine methods that best suit their businesses.
- Many slaughterhouse operators already have systems in place for receiving information from their livestock suppliers and may just amend them to accommodate the minimum elements, if they do not already do so.
- Livestock producers are advised to discuss arrangements for exchange of FCI with regular customers for their slaughter animals i.e. slaughterhouse operators and livestock markets in preparation for 1 January.

For further information contact: Jayne Griffiths
Food Standards Agency Wales
Phone: 029 2067 8908
E-mail: jayne.griffiths@foodstandards.gsi.gov.uk

Guidance is also available on the Agency's website at: http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/fciguidance

Summary of Minimum Elements of FCI for Cattle, Sheep and Goats

The following information will be required for cattle, sheep and goats.

Holding Number
Keepers Name
Address of Holding
Postcode
Telephone Number
Email address – optional
Number of Animals in Consignment
Identification Marks

The holding is not under movement restrictions for animal disease or public health reasons.

Withdrawal periods have been observed for all veterinary medicines and other treatments administered to the animals while on this holding and previous holdings.

To the best of your knowledge the animals are not suffering from any disease or condition that may affect the safety of meat derived from them.

No analysis of samples taken from animals on the holding or other samples has shown that the animals in this consignment may have been exposed to any disease or condition that may affect the safety of meat or to substances likely to result in residues in meat.

If any of the above statements are not fulfilled you will need to provide additional information.

In addition to the above if you are sending cattle to slaughter you will be required to state that:

EITHER
The holding **is not** under movement restrictions for bovine Tuberculosis (TB)

OR
The holding **is** under movement restrictions for bovine Tuberculosis (TB)

ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr

Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr

Beth y mae hyn yn ei olygu i chi

- Bydd yn ofyniad cyfreithiol i ddarparu Gwybodaeth am y Gadwyn Fwyd (FCI) ar gyfer gwartheg, defaid a geifr o 1 Ionawr 2010 ymlaen.
- Mae FCI yn wybodaeth am statws iechyd y daliad (holding) a'r anifeiliaid sy'n cael eu hanfon i'w lladd, a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i ddiogelwch cig sy'n dod o'r anifeiliaid, gan gynnwys y meddyginiaethau y maent wedi'u cael.
- Mae FCI yn rhan bwysig o'r rheolaethau diogelwch bwyd 'o'r fferm i'r fforc' ac mae'n sicrhau bod gwybodaeth am anifeiliaid sy'n cael eu lladd yn cael ei throsglwyddo o'r fferm i'r lladd-dy.
- Bydd gofyn i gynhyrchwyr da byw roi'r wybodaeth hon ar gyfer yr holl anifeiliaid sy'n cael eu hanfon i'w lladd - naill ai yn uniongyrchol neu drwy farchnad da byw.
- Mae gweithredwyr lladd-dai yn defnyddio'r wybodaeth hon ar gyfer eu systemau rheoli diogelwch bwyd, ac mae swyddogion y Gwasanaeth Hylendid Cig yn ei defnyddio i wneud penderfyniadau am gig a gweithdrefnau arolygu.
- Yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fel awdurdod cymwys canolog y DU, wedi nodi pa wybodaeth FCI sy'n rhaid ei chyflwyno i'r lladd-dy fel isafswm. Yn y pen draw, rhaid i'r lladd-dai eu hunain benderfynu pa wybodaeth yn union sydd ei hangen arnynt.
- Nid yw'r ddeddfwriaeth yn pennu'n union sut y dylid cyflwyno'r FCI - bydd gweithredwyr y lladd-dai yn penderfynu ar y dull sydd fwyaf addas at eu hanghenion busnes.
- Mae gan lawer o weithredwyr lladd-dai systemau ar waith yn barod ar gyfer derbyn gwybodaeth gan eu cyflenwyr da byw. Mae'n bosibl y gallant addasu'r systemau hyn er mwyn cynnwys yr wybodaeth elfennol hon, os nad ydynt eisoes yn ei chynnwys.
- Dylai cynhyrchwyr da byw fynd ati i drafod trefniadau rhannu gwybodaeth FCI â'u cwsmeriaid rheolaidd, h.y. gweithredwyr lladd-dai a marchnadoedd da byw, yn barod ar gyfer 1 Ionawr.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Jayne Griffiths
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Ffôn: 029 2067 8908
E-bost: jayne.griffiths@foodstandards.gsi.gov.uk
Mae'r canllawiau hefyd ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy: http://www.food.gov.uk/foodindustry/guidancenotes/meatregsguid/fciguidance

Crynodeb o'r wybodaeth FCI sy'n rhaid ei chyflwyno ar gyfer Gwartheg, Defaid a Geifr

Bydd angen rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer gwartheg, defaid a geifr.

Rhif y Daliad
Enw'r Ceidwad
Cyfeiriad y Daliad
Cod Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad E-bost – dewisol
Nifer yr Anifeiliaid yn y Llwyth
Nodau Adnabod

Nid yw'r daliad o dan unrhyw gyfyngiadau symud o ganlyniad i glefyd anifeiliaid neu resymau sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Cydymffurfiwyd â'r cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer yr holl feddyginiaethau milfeddygol a'r triniaethau eraill y mae'r anifeiliaid wedi'u cael tra'r oeddent ar y daliad hwn, a daliadau blaenorol.

Hyd eithaf eich gwybodaeth, nid yw'r anifeiliaid yn dioddef o unrhyw glefyd neu gyflwr a allai effeithio ar ddiogelwch y cig a ddaw oddi wrthynt.

Nid yw unrhyw samplau a gymerwyd oddi wrth yr anifeiliaid ar y daliad nac unrhyw samplau eraill wedi dangos bod yr anifeiliaid wedi bod yn agored i unrhyw glefydau neu gyflyrau a allai effeithio ar ddiogelwch cig, neu unrhyw sylweddau a allai arwain at weddillion yn y cig.

Os nad yw unrhyw un o'r datganiadau uchod yn wir, bydd angen i chi ddarparu rhagor o wybodaeth.

Yn ogystal â'r uchod, os ydych yn anfon gwartheg i gael eu lladd, bydd gofyn i chi nodi:

NAILL AI
Nid yw'r daliad o dan unrhyw gyfyngiadau symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)

NEU
Mae'r daliad o dan gyfyngiadau symud ar gyfer Twbercwlosis gwartheg (TB)